

Yr Arddodiaid

Dydd Mercher y 9fed o Ionawr 2019

Nod y wers

- Trafod Aseiniad 1 yn fras. Byddwch yn derbyn eich aseiniad yn ôl yr wythnos nesaf.
- Cwis gwallau cyffredin sy'n codi o'r aseiniad.
- Cofrestru am y TCA
- Pwynt Iaith: Yr Arddodiaid

Aseiniad 1

- Rhai yn hwyr yn cyflwyno.
- Rhai pecynnau yn denau iawn. Roedd angen 3 phecyn: Cynllun, adnoddau a **gwerthusiad manwl**.
- Cynlluniau yn dda iawn- manwl.
- Amrywiaeth o adnoddau apelgar. Syniadau hyfryd.
- Gwerthusiadau yn wan iawn- neu ddim o gwbl.

Aseiniad 1: Gwallau cyffredin

- eich waith
- Pam ydy / Ble ydy
- y ddisgyblion
- eu ddealltwriaeth
- amdan y pwnc

Aseiniad 1: Gwallau cyffredin

- Atebwch y 4 cwestiynau.
- Mae angen i'r plant cael..
- Roedd llawer o'r disgyblion ddim...
- Edrychwch ar y diagram. Maent yn dangos sut i...
- Byddai yn esbonio sut i wneud y dasg.

Darllenwch y paragraff a dewch o hyd i'r gwallau.

Roedd Tomos yn hynnod falch o bod adref dros y Nadolig. Teimlodd roedd y tymor diwethaf yn yr ysgol yn anodd iawn. Roedd ei mentor wedi dweud bod mae e'n rhoi gwaith rhy hawdd i'r disgyblion ac bod e ddim yn ei herio nhw. Dydy Tomos ddim yn deall pam fod y mentor yn meddwl hynnu. Roedd y ddisgyblion bob tro yn ymateb yn bositif i'r wersi ar taflennu gwaith bob tro wedi gwahaniaethu. Teimlai Tomos yn falch iawn bod y disgyblion hyd yn oed wedi cofio amdan yr arbrawf wrth ateb cwestiwn anodd yn yr arholiad ar diwedd y tymor.



**Yr
Arddodiaid**

Yr arddodiaid mwyaf cyffredin

am	ar	at	gan
heb	i	o	dan
dros	drwy	wrth	hyd

Dyma rai o'r prif arddodiaid **syml**.

Mae arddodiaid syml yn cynnwys un gair.

Bydd **treigladau meddal** ar ôl pob un o'r uchod.

Rheol 1: ‘Y Dodo’

‘Ble wyt ti’n
dod-o?’

A minnau ar wyliau eleni,
Ces air o gyngor gan ieithgi:
‘Paid dodi arddodiad
Ar ddiwedd gosodiad.’
Atebais mewn eiliad, ‘Sa’i ’n mynd i!’

Emyr Davies



Rheol 2: Arddodiaid cyfansawdd

- Mae arddodiaid cyfansawdd yn cynnwys **mwyn nag un elfen**
- Gall y rhain weithiau gael eu hysgrifennu ar ffurf un gair

er mwyn

ar ôl

ar gyfer

am ben

oherwydd

ynghylch

uwchben

Arddodiaid cyfansawdd **Personol**

Fformiwla = gair 1 + rhagenw + gair 2

Ar ôl cytsain

Mae angen defnyddio' r rhagenwau blaen: **fy**,
dy, **ei**, **ein**, **eich**, **eu**

ar ôl

ar **fy** ôl i
ar **dy** ôl di
ar **ei** hôl hi
ar **ei** ôl ef

er mwyn

er **ein** mwyn ni
er **eich** mwyn chi
er **eu** mwyn nhw

Arddodiaid cyfansawdd personol

Fformiwla = gair 1 + rhagenw + gair 2

Ar gyfer = ar + cyfer

fy + treigladd trwynol	→	ar fy <u>ng</u> hyfer i
dy + treigladd meddal	→	ar dy gyfer di
ei (g) + treigladd meddal	→	ar ei gyfer ef
ei (b) + treigladd llaes	→	ar ei <u>ch</u> gyfer hi
ein + dim treigladd	→	ar ein cyfer ni
eich + dim treigladd	→	ar eich cyfer chi
eu + dim treigladd	→	ar eu cyfer nhw

Cofiwch am y rheolau treiglo!

Arddodiad a berfenwau

- Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau:

siarad

cwrdd

mynd

ysgrifennu

sylwi

dweud

gwranddo

edrych

anfon

sôn

Berfenw + arddodiad

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau

siarad â	gwrando ar	meddwl am
dweud wrth	ysgrifennu at	aros am

Mae angen dewis yr arddodiad cywir.

Yn anffodus does dim patrwm ar gyfer dewis!

Rhaid cofio!

Llyfr: Pa Arddodiad? gan D. Geraint Lewis

Arddodiad gyda berf

Aeth Sian i'r deintydd bore heddiw.

Dywedodd y bachgen i'r prifathro ei fod yn sâl.

Cafodd y bachgen gyfle i siarad i'r athro heddiw.

Byddaf yn mynd i'r meddyg yr wythnos nesaf.

Pa arddodiad sy'n gywir?

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa
arddodiad sy'n mynd gyda berfau e.e.

mynd at
siarad gyda/efo/â
dweud wrth
anghofio am
ateb dros
gwrando ar



Cwestiynu

Rydym hefyd yn defnyddio arddodiaid wrth ofyn cwestiwn.

Er enghraifft-

I **b**wy...

At **b**wy...

Gan **b**wy...

I **ble**...

O **ble**...

Ar beth...

I beth...

Am beth...

Am **faint**...

a.y.y.b



Rheolau Pwysig

- Peidiwch â defnyddio arddodiaid syml ar ddiwedd brawddegau:

× Ble wyt ti'n dod o?

✓ O ble wyt ti'n dod?

- Rhaid rhedeg arddodiaid ar ddiwedd brawddegau:

Mae annwyd **arnaf i.**



Rheolau Pwysig

- Cofiwch ddefnyddio'r arddodiaid cywir ar ôl berfenwau.
- Cofiwch redeg yr arddodiad gyda'r rhagenwau – [fi/ti/ef/hi/ni/chi/nhw](#).

Cofiwch fod treigladd meddal ar ôl rhagenwau hefyd.



Arddodiad RHEDADWY

Mae modd i ni roi person ar gyfer pob arddodiad. Ystyriwch y frawddeg yma:


*Paid ag edrych **ar fi!***

Byddai'n rhaid cywiro'r frawddeg gan ddefnyddio'r arddodiad RHEDADWY, sef arna i/arnaf fi



Beth yw'r arddodiaid rhedadwy?

Mae chwe person i'r arddodiad rhedadwy
sef:



Drwy roi rhain gydag arddodiad fe
fyddwch yn ffurfio'r arddodiad
rhedadwy:

ar fi > arnaf fi

ar ti > arnat ti

ar fe > arno fe

ar hi > arni hi

ar ni > arnon ni

ar chi > arnoch chi

ar nhw > arnyn nhw



Mae modd gwneud hyn gyda'r deuddeg arddodiad:

AR	AM	AT
DAN	DROS	DRWY
GAN	HEB	HYD
I	O	WRTH

Rydyn ni eisoes wedi gwneud 'ar', beth am y gweddill?



AR, AM ac AT

AR	AM	AT
arna i arnat ti arno fe arni hi arnom(n) ni arnoch chi arnyn nhw	amdana i amdanat ti amdano fe amdani hi amdanom(n) ni amdanoch chi amdanyyn nhw	ata i atat ti ato fe ati hi atom(n) ni atoch chi atyn nhw

DAN, DROS a DRWY

DAN	DROS	DRWY
dana i	drosta i	drwydda i
danat ti	drosta ti	drwydda ti
dano fe	drosto fe	drwyddo fe
dani hi	drosti hi	drwyddi hi
danom(n) ni	Drostom(n) ni	drwyddon ni
danoch chi	drostoch chi	drwyddoch chi
dany'n nhw	drostyn nhw	drwyddyn nhw

GAN, HEB a HYD

GAN	HEB	HYD
gennyf fi/gen i	hebdda i	hyd-dda i
gennyt ti	hebddat ti	hyd-ddat ti
ganddo fe	hebddo fe	hyd-ddo fe
ganddi hi	hebddi hi	hyd-ddi hi
gennym ni	hebddon ni	hyd-ddon ni
gennych chi	hebddoch chi	hyd-ddoch chi
ganddyn nhw	hebddyn nhw	hyd-ddyn nhw

I, O ac WRTH

I	O	WRTH
i fi	ohona i	wrtha i
i ti	ohonot ti	wrthat ti
iddo fe	ohono fe	wrtho fe
iddi hi	ohoni hi	wrthi hi
i ni	ohonon ni	wrthon ni
i chi	ohonoch chi	wrthoch chi
iddyn nhw	ohonyn nhw	wrthyn nhw

Pa fath o wall sy'n gyffredin?

Y gwall mwyaf cyffredin yw peidio defnyddio arddodiad rhedadwy.

Edrychwch ar yr esiamplau:

Edrychodd Sian ar fe'n flin.

Cefais anrheg gan fe heddiw.

Diolchodd mam dros ni.

Cerddodd y tarw at hi.

Sut fyddwn i'n cywiro?

Gwall	Cywiriad	Esboniad
ar fi	arna i	Mae angen yr arddodiad yn ei ffurf rhedadwy person 1af unigol.
gan fe	ganddo fe	Mae angen yr arddodiad yn ei ffurf rhedadwy 3ydd person unigol.
dros ni	droston ni	Mae angen yr arddodiad yn ei ffurf rhedadwy person 1af lluosog.
at hi	ati hi	Mae angen yr arddodiad yn ei ffurf rhedadwy 3ydd person unigol.

CRYNHOI'R RHEOLAU

- Ceir treigladd meddal ar ôl yr arddodiaid AR, AM, AT, DAN, DROS, DRWY, GAN, HEB, HYD, I, O, WRTH.
- Mae angen sicrhau fod yr arddodiad cywir yn cael ei ddefnyddio gyda berf
- Mae angen rhoi'r arddodiad yn ei ffurf redadwy ar adegau a dylem geisio nodi pa berson sydd ei angen e.e.

ar fi > arnaf fi (person 1af unigol)



Ymarfer:



1. Gofynnais wrtho ef ddod â chyllell finiog i mi.
2. Rydw i wedi sylweddoli ar y broblem.
3. Mae hi'n hoffi siarad am hi ei hun.
4. Bydd hi'n gwrando i gerddoriaeth wrth gerdded i'r ysgol.
5. Dywedodd hi i'w mam nad oes ysgol yfory.
6. Ysgrifennais i'r Prif Wenidog am y broblem.
7. Roedd y gwaith yn pwyso ar ef.
8. Cofiwch fi i'ch tad.
9. Rwy'n disgwyl y canlyniadau o'r meddyg.
10. Mae gen hi lawer o arian.

Ymarferion:

Defnyddiwch y ffurfiau a ddefnyddir mewn brawddegau:

- | | |
|-------------------------------------|------------------|
| a) Ail Berson Unigol | <i>at</i> |
| b) Trydydd Person Unigol, Gwrywaidd | <i>dros</i> |
| c) Trydydd Person Unigol, Benywaidd | <i>i</i> |
| ch) Ail Berson Lluosog | <i>o dan</i> |
| d) Person Cyntaf Unigol | <i>oddi wrth</i> |
| dd) Trydydd Person Lluosog | <i>gan</i> |
| e) Trydydd Person Unigol, Gwrywaidd | <i>rhag</i> |
| f) Trydydd Person Unigol, Benywaidd | <i>wrth</i> |
| ff) Ail Berson Unigol | <i>o</i> |
| g) Person Cyntaf Lluosog | <i>heb</i> |

Nodwch yr arddodiad a ddylai ddilyn y berfau canlynol:

gwrando
caniatau
gweiddi
llwyddo

sylwi
cytuno
siarad
hiraethu

chwerthin
anghofio
ysgrifennu
anelu